Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arweiniad i ysgolion / darparwyr: gwirio cywirdeb ffeithiol

## Medi 2018

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw ei ddiben?**

Rhoi arweiniad i ysgolion / darparwyr ar wirio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad arolygu yn dilyn arolygiad.

**I bwy mae'r arweiniad wedi'i fwriadu?**

Pob ysgol a gynhelir ac ysgol annibynnol, a phob darparwr addysg ôl-16.

**O ba bryd ddylai'r arweiniad gael ei ddefnyddio?**

O Fedi 2018 ymlaen.

## Cynnwys — Tudalen


**Cefndir** 1

**Beth sy'n digwydd ar ôl yr arolygiad** 1

**Beth ddylai'r ysgol / darparwr ei wneud** 1

**Beth fydd Estyn yn ei wneud** 2

**Mynd i'r afael â gwallau ffeithiol** 2

Egluro camddealltwriaethau 2
Ymateb pan fydd y gwiriad ffeithiol yn dechrau herio canfyddiadau neu farnau arolygu 2
Ymateb i gyfuniad o faterion 3

**Yn achos pob ymateb yn sgil gwirio cywirdeb ffeithiol** 3

**Diwedd proses y gwiriad ffeithiol** 3

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad i ysgolion ar ffocws penodol y gwiriad cywirdeb ffeithiol. Hefyd, mae'n egluro sut bydd Estyn yn ymateb i unrhyw faterion mae'r ysgol yn eu codi drwy'r broses hon.

Mae Estyn yn disgwyl i bob adroddiad arolygu fod yn ffeithiol gywir ac amlinellu canfyddiadau'r arolygiad a'r naratif, gan esbonio barnau'n glir ac yn ddiamwys.

Fel arfer, mae adroddiadau Estyn yn cyflwyno'u canfyddiadau yn gywir. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gall gwall ffeithiol godi mewn adroddiad drafft neu gall yr ysgol / darparwr amgyffred nad yw'r adroddiad yn cyfleu'r canfyddiadau'n glir. Rydym yn cydweithio ag ysgolion/darparwyr trwy gydol y broses o wirio cywirdeb ffeithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr arolygiad

Ar ôl pob arolygiad craidd ac ymweliad dilynol, mae canfyddiadau'r arolygiad yn mynd trwy broses drylwyr o olygu, safoni a dilysu yn Estyn (proses sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAd)). Mae rhagor o wybodaeth am y broses SAAd ar gael yn y Polisi Sicrhau Ansawdd a'r Pecyn Canllawiau Sicrhau Ansawdd ar wefan Estyn.

Cyn i Estyn gyhoeddi adroddiad arolygiad craidd, byddwn yn anfon drafft hwyr o'r adroddiad arolygu i'r ysgol/darparwr, drwy'r e-bost. Yna, mae gan yr ysgol/y darparwr 5 niwrnod gwaith i ddarllen yr adroddiad a rhoi gwybod i ni p'un a oes unrhyw gamgymeriadau ffeithiol yn yr adroddiad.

## Beth ddylai'r ysgol / darparwr ei wneud

Ar ôl derbyn yr adroddiad, mae angen i'r ysgol ddarllen yr adroddiad yn fanwl a chanolbwyntio ar amlygu unrhyw wallau ffeithiol.

Yn gyffredin, bydd ysgolion/darparwyr yn sylwi ar bethau fel ffeithiau rhifiadol sy'n anghywir, er enghraifft cyfran y disgyblion/dysgwyr y mae'r ysgol / darparwr wedi nodi bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. O dro i dro, gall yr adroddiad ddefnyddio ymadrodd nad yw'n gwbl gywir, er enghraifft gall ddefnyddio 'cynorthwyydd cymorth dysgu' pan fydd y darparwr yn defnyddio 'cynorthwyydd cymorth dosbarth'.

Yn eu hymateb i Estyn, dylai ysgolion/darparwyr restru unrhyw wallau ffeithiol a darparu'r wybodaeth gywir i'r ACof ystyried ei chynnwys yn nrafft terfynol yr adroddiad arolygu.

Hefyd, dylai ysgolion / darparwyr sicrhau bod eu hymateb i'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar faterion ffeithiol yn hytrach na materion sy'n ymwneud â barnau. Dywed polisi Estyn ar gyfer delio â chwynion y bydd Estyn yn ymchwilio i gwynion

am ymddygiad staff Estyn neu eraill sy'n gweithio gyda nhw, fel arolygwyr cymheiriaid neu arolygwyr ychwanegol sy'n gweithio i Estyn. Hefyd, byddwn yn ymchwilio i gwynion am 'weithredoedd gweinyddol', er enghraifft penderfyniadau gweinyddol, y ddarpariaeth wybodaeth neu faterion eraill. Fodd bynnag, mae'r polisi yn datgan yn glir 'na allwn dderbyn cwynion na heriau i farnau a wnaed am sefydliad fel rhan o arolygiad neu adolygiad'.

## Beth fydd Estyn yn ei wneud

Ar ôl inni dderbyn ymateb i'r gwiriad ffeithiol gan yr ysgol/y darparwr, bydd y Cydlynydd Arolygu (CydAr) yn cydnabod derbyn yr e-bost. Rydym bob amser yn ddiolchgar pan fydd ysgolion/darparwyr yn cymryd amser i ddarllen drwy'r adroddiad drafft.

Bydd yr ACof yn ystyried yr ymateb yn ofalus ac yn anfon ymateb drwy'r e-bost at y CydAr, a fydd yn anfon y testun ymlaen i'r ysgol/darparwr.

## Mynd i'r afael â gwallau ffeithiol

Mae ffocws manwl y gwiriad ar gywirdeb ffeithiol. Pan fydd y newidiadau sy'n cael eu hawgrymu gan yr ysgol/y darparwr yn syml ac yn ddi-ddadl, bydd yr ACof yn aml yn gallu derbyn yr awgrymiadau a gwneud y newidiadau priodol i ddrafft terfynol yr adroddiad, y bydd Estyn yna'n ei gyhoeddi ar ei wefan.

Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ysgol/darparwr unigol mor gywir â phosibl.

### Egluro camddealltwriaethau

Weithiau yn eu hymateb, bydd ysgolion/darparwyr yn codi materion sy'n awgrymu wrth yr ACof fod camddealltwriaeth neu ddiffyg eglurder wrth gyfleu canfyddiadau'r adroddiad. Pan fydd yr ACof yn cytuno â'r ysgol/darparwr, mae'n bosibl y gall yr ACof gynnig rhywfaint o eglurhad sydyn i esbonio'r canfyddiadau ymhellach. Lle y bo'r ACof yn ystyried hynny'n briodol, mae'n bosibl y bydd yr ACof hefyd yn gallu diwygio testun yr adroddiad i ddatrys unrhyw gamddealltwriaeth heb newid hanfod unrhyw ganfyddiadau na barnau'r arolygiad.

### Ymateb pan fydd y gwiriad ffeithiol yn dechrau herio canfyddiadau neu farnau arolygu

Weithiau, bydd ysgolion/darparwyr yn ceisio defnyddio'r cyfle a roddir gan y gwiriad ffeithiol i herio elfennau eraill o'r adroddiad, er enghraifft y barnau neu'r canfyddiadau.

Pan fydd ysgolion/darparwyr yn codi materion nad ydynt yn gwbl ffeithiol ac yn codi'n unig o ganlyniad i gamddealltwriaeth neu ddiffyg eglurder yn yr adroddiad, ni fydd yr ACof yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Pan na fydd yr ymateb yn ymwneud â chywirdeb ffeithiol neu ni ellir ymdrin â'r ymateb fel pe bai'n gamddealltwriaeth, mae y tu hwnt i gwmpas proses y gwiriad ffeithiol. Mae'n bosibl y bydd gweithdrefnau Estyn ar gyfer delio ag adborth a chwynion yn fwy priodol ar gyfer delio â'r materion eraill hyn.

### Ymateb i gyfuniad o faterion

Weithiau, bydd ysgol/darparwr yn codi cyfuniad o faterion. Gall fod yn bosibl i'r ACof ymateb i rai o'r rhain (e.e. gwallau ffeithiol neu gamddealltwriaethau), ond gall fod yn amhriodol i'r ACof ymateb i eraill (e.e. pan fydd yr ymateb wedi crwydro i faterion sy'n ymwneud yn fwy â'r barnau neu'r canfyddiadau).

Yn yr achosion hyn, bydd yr ACof yn ystyried yr ymateb gan yr ysgol/y darparwr ac yn ceisio nodi'r materion sy'n ymwneud â gwallau ffeithiol, y rhai sy'n ymwneud â chamddealltwriaeth a'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ystyriaethau hynny ac sydd, felly, y tu hwnt i gwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol.

Yna, bydd yr ACof yn ceisio mynd i'r afael â'r gwallau ffeithiol ac unrhyw gamddealltwriaethau yn ei ymateb i'r ysgol/darparwr.

Pan fydd y camddealltwriaethau yn gynhennus, gall ACof bob amser ymgynghori ag arolygwyr arweiniol y sector, y swyddogion arweiniol ar gyfer polisïau arolygu a sicrhau ansawdd, a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol.

Hefyd, bydd yr ACof yn cyfeirio'r ysgol/darparwr at arweiniad Estyn ar weithdrefnau delio â chwynion ac yn awgrymu bod yr ysgol/y darparwr yn codi unrhyw faterion heb eu datrys trwy'r llwybr hwnnw.

## Yn achos pob ymateb yn sgil gwirio cywirdeb ffeithiol

Ar ôl i Estyn dderbyn ymateb gan ddarparwr yn sgil gwirio ffeithiau, dylai'r ACof bob amser ateb gydag ymateb priodol.

Dylai'r ACof anfon ymateb at y CydAr perthnasol er mwyn iddo anfon e-bost i'r ysgol/darparwr.

Mae'n bwysig bod ACof yn defnyddio'r CydAr fel pwynt cyswllt ag ysgolion/darparwyr ar ôl arolygiadau fel y gallwn gadw cofnod clir o'r broses ôl-arolygiad.

## Diwedd proses y gwiriad ffeithiol

Fel arfer, bydd yr ysgol/y darparwr yn cael yr adroddiad drafft ar gyfer y gwiriad ffeithiol wythnos neu ddwy cyn dyddiad cyhoeddi statudol yr adroddiad. Bydd yr ACof yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw wall ffeithiol neu gamddealltwriaeth mor gyflym â phosibl fel y gall Estyn gyhoeddi'r adroddiad arolygu ar ei wefan ar y dyddiad cyhoeddi.

Os na chawn ymateb gan ysgol/darparwr o fewn 5 niwrnod, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad yw'r ysgol/darparwr wedi amlygu unrhyw wallau ffeithiol yn yr adroddiad ac, ar sail hynny, byddwn yn bwrw ymlaen â chyhoeddi'r adroddiad ar y dyddiad cyhoeddi statudol.

Fel arfer, byddwn yn parhau i gyhoeddi'r adroddiad arolygu ar y dyddiad statudol hyd yn oed os bydd materion heb eu datrys, y mae'r gweithdrefnau delio â chwynion yn ymdrin â nhw.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am benderfynu'n derfynol beth i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad arolygu.